OFFERYNNAU STATUDOL CYMRU

2002 Rhif 1876 (Cy.185)

CYNLLUNIO GWLAD A THREF, CYMRU

Rheoliadau Cynllunio Gwlad a Thref (Ffioedd ar gyfer Ceisiadau a Cheisiadau Tybiedig) (Diwygio) (Cymru) 2002

Wedi'u gwneud - -	*18 Gorffennaf 2002*
Yn dod i rym - -	*1 Awst 2002*

Mae Cynulliad Cenedlaethol Cymru, drwy arfer y pwerau a roddwyd i'r Ysgrifennydd Gwladol gan adran 303 o Ddeddf Cynllunio Gwlad a Thref 1990(**1**), ac sydd bellach yn arferadwy gan y Cynulliad Cenedlaethol(**2**), drwy hyn yn gwneud y Rheoliadau canlynol:

Enwi, cychwyn, dehongli a chymhwyso

1.—(1) Enw'r Rheoliadau hyn yw Rheoliadau Cynllunio Gwlad a Thref (Ffioedd ar gyfer Ceisiadau a Cheisiadau Tybiedig) (Diwygio) (Cymru) 2002 a deuant i rym ar 1 Awst 2002.

(2) Yn y Rheoliadau hyn, ystyr "Rheoliadau 1989" ("*the 1989 Regulations*") yw Rheoliadau Cynllunio Gwlad a Thref (Ffioedd ar gyfer Ceisiadau a Cheisiadau Tybiedig) 1989(**3**).

(3) Mae'r Rheoliadau hyn yn gymwys i Gymru.

Ffioedd ar gyfer rhai ceisiadau o dan y Gorchymyn Datblygu Cyffredinol a Ganiateir

2.—(1) Yn rheoliad 11A o Reoliadau 1989(**4**), yn lle paragraff (1), rhowch—

> "(1) Where an application is made to a local planning authority for their determination as to whether the prior approval of the authority will be required in relation to development under Schedule 2 to the General Permitted Development Order a fee shall be paid to the authority of the following amounts—
>
> (a) for an application under Parts 6, 7 or 31, £35; and
>
> (b) for an application under Part 24, £190".

(**1**) 1990 p.8: diwygiwyd adran 303 gan baragraff 10 o Atodlen 13 i Ddeddf Diogelu'r Amgylchedd 1990 (p.43), a chan adran 6(6) o Ddeddf Cynllunio ac Iawndal 1991(p.34). *Gweler* adran 336(1) o Ddeddf Cynllunio Gwlad a Thref 1990 i gael y diffiniad o "*prescribed*".

(**2**) Trosglwyddwyd cyfrifoldebau'r Ysgrifennydd Gwladol o dan adran 303, i'r graddau y maent yn arferadwy mewn perthynas â Chymru, i Gynulliad Cenedlaethol Cymru gan erthygl 2 o Orchymyn Cynulliad Cenedlaethol Cymru (Trosglwyddo Swyddogaethau) 1999, O.S.1999/672 ac Atodlen 1 iddo.

(**3**) O.S.1989/193; 1991/2735, 1992/1817, 1993/3170 a 1997/37 yw'r offerynnau diwygio perthnasol.

(**4**) Mewnosodwyd Rheoliad 11A gan baragraff 3 o Atodlen 3 i O.S.1991/2735 ac fe'i hamnewidiwyd gan reoliad 4 o O.S.1992/3052.